# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 08 Rhagfyr 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru esbonio pa swyddogaethau, cyfansoddiad a statws sydd ganddo mewn golwg ar gyfer Bwrdd Diwylliant Cymru, yn unol â'i ddatganiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 30 Tachwedd 2004. (WAQ40594)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau yr oedd Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'i gydweinidogion yn San Steffan am gynnwys ei ddatganiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 30 Tachwedd 2004. (WAQ40595)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** O ba ffynonellau y daw'r arian ar gyfer cyhoeddiad diweddar y Gweinidog ar Fenter y Cymoedd. (WAQ40619)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A ddefnyddir ar gyfer Menter y Cymoedd arian a neilltuwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i ddelio ag effaith cau Corus. (WAQ40620)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o feicwyr sydd wedi'u lladd neu eu hanafu bob blwyddyn yn y pum mlynedd diwethaf a faint o'r rheini oedd ar gefnffyrdd. (WAQ40596)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddweud pa waith sy'n mynd rhagddo ar gefnffyrdd Cymru. (WAQ40597)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffaith bod Mid Wales Yarns yn cau ac ar ddyfodol cynweithwyr Mid Wales Yarns. (WAQ40600)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Faint o gerbydau wedi'u gadael gafodd eu hadfer ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru yn 2002-03. (WAQ40593)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd mae Llywodraeth y Cynulliad yn

bwriadu ymateb i'r ymgynghoriad ar TAN 8: Ynni Adnewyddadwy mewn perthynas ag ynni'r gwynt. (WAQ40599)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Ers gostwng prisiau presgripsiynau yng Nghymru (o'i gymharu â Lloegr), a oes gan y Gweinidog wybodaeth faint o bresgripsiynau gafodd eu rhoi yn Lloegr sy'n cael eu casglu yng Nghymru, a beth yw cost hyn i gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ40598)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pryd mae'r Gweinidog yn disgwyl y bydd yn cyhoeddi'r Strategaeth Therapi. (WAQ40601)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa ymgynghori y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei gynnal ar y Strategaeth Therapi. (WAQ40602)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu nifer y Nyrsys Ardal yn y GIG yng Nghymru. (WAQ40603)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y nyrsys ardal yn y GIG yng Nghymru heddiw ac a wnaiff roi’r ffigur ar gyfer pob un o’r pum mlynedd diwethaf. (WAQ40604)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Beth y mae’r Gweinidog yn ei wneud i fynd i’r afael â’r broblem o ddefnyddio’r GIG yng Nghymru fel ‘canolfan hyfforddi’ ar gyfer nyrsys tramor sy’n symud i weithio dramor ar ôl codi eu lefel sgiliau. (WAQ40605)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint o a) leoedd nyrsio gwag sydd yn y GIG yng Nghymru heddiw, b) faint o leoedd nyrsio gwag sy’n cyfateb i swyddi amser llawn sydd yn y GIG yng Nghymru heddiw ac c) a wnaiff y Gweinidog roi’r ffigur ar gyfer pob un o’r pum mlynedd diwethaf. (WAQ40606)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint sy’n cael ei wario ar nyrsys Asiantaeth ar hyn o bryd ac a wnaiff y Gweinidog roi manylion y gost ar gyfer pob un o’r pum mlynedd diwethaf. (WAQ40607)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ystyried gofyn i’r Prif Swyddog Nyrsio gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar gyflwr y proffesiwn nyrsio yng Nghymru i’r Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ40608)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Beth oedd cost sefydlu Comisiwn Iechyd Cymru. (WAQ40609)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ymrwymo i gynyddu nifer y

nyrsys ysgol. (WAQ40610)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gofrestru gweithwyr cymorth gofal iechyd. (WAQ40611)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyfforddi nyrsys i fod yn Gwnstabliaid Arbennig yn y sector acíwt. (WAQ40612)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyllid a ddarperir ar gyfer recriwtio nyrsys. (WAQ40613)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Sut y mae’r Gweinidog yn bwriadu datblygu sgiliau arwain y proffesiwn nyrsio yng Nghymru. (WAQ40614)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint o gyllid y mae’r Gweinidog wedi’i ryddhau i gefnogi a chynyddu’r ymchwil ym maes nyrsio. (WAQ40615)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint o gyllid y mae’r Gweinidog wedi’i ryddhau er mwyn gweithredu’r Agenda ar gyfer Newid. (WAQ40616)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gomisiynu gwasanaethau gofal sylfaenol "y tu allan i oriau" gan Fyrddau Iechyd Lleol. (WAQ40617)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint o arian a gaiff ei wario ar hyn o bryd ar staff diogelwch mewn ysbytai ac a wnaiff y Gweinidog roi’r ffigur ar gyfer pob un o’r pum mlynedd diwethaf. (WAQ40618)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr amgylchiadau a arweiniodd at achos lle gwnaeth claf 'flocio gwely' yn Ysbyty St. Woolos, Casnewydd am 902 o ddyddiau. (WAQ40621)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru a Phroffesiynau Iechyd Cymru ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd. (WAQ40622)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt yr Ymarfer Cwmpasu Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd. (WAQ40623)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pryd y mae’r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi adolygiad o Fwrdd Iechyd Lleol Powys fel sefydliad ‘Braenaru’. (WAQ40624)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y dyddiadau pryd y disgwylir cyhoeddi a chwblhau'r Ddogfen Fframwaith ar gyfer y Gwasanaeth Tân yng Nghymru. (WAQ40592)